Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio

# **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 346A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Robert Hathaway ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan gyfarwyddyd John Roberts ac Alan Morris.

# Cynnwys

Mae gwella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol yn cefnogi perfformiad cynllunio gwell, er nad yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| **Gweledigaeth ar arweinyddiaeth:** Mae gwella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol yn atgyfnerthu gallu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cynllunio gwell, er bod diffyg ffocws clir o ran blaenoriaethau gwasanaethau | 7 |
| Mae gwell arweinyddiaeth o'r gwasanaeth cynllunio a threfniadau llywodraethu cryfach yn cefnogi proses graffu a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol | 7 |
| Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio mwy ar wella ffyniant economaidd i'w gymunedau | 8 |
| Mae cynlluniau tîm yn cysylltu amcanion corfforaethol ond yn aml nid yw cwsmeriaid, staff ac aelodau yn glir ynghylch blaenoriaethau'r gwasanaeth cynllunio | 9 |
| **Cyflawni a chost:** Mae costau cyffredinol, perfformiad a boddhad cwsmeriaid yn dda ar y cyfan ond, er bod cydweithredu yn gwella, nid yw'n ddigon strategol, mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai a thai fforddiadwy yn isel ac mae'r elfen o gynhyrchu incwm braidd yn araf yn datblygu | 10 |
| Mae asiantau cynllunio yn mynegi lefelau uchel o foddhad ond, er iddynt gynnwys rhanddeiliaid, mae barn dinasyddion am wasanaethau cynllunio yn waeth nag ydyw ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill yr Awdurdod | 10 |
| Ar y cyfan mae perfformiad yn dda a gwneir penderfyniadau mewn modd effeithlon ond mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai ymhell islaw'r gofyniad pum mlynedd ac mae'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy yn wael | 11 |
| Mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion darbodus, gan gynnwys lleihau nifer y staff gwasanaeth cynllunio, ond bu'n araf i ddatblygu proses o gynhyrchu incwm a gwella'r dull o reoli dogfennau | 13 |
| Mae'r Awdurdod yn gweithio'n fwy cydweithredol i ddarparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau na'i dargedau yn ddigon strategol i gyflawni arbedion cost sylweddol yn wyneb caledi parhaus yn y sector cyhoeddus | 15 |

| | |
|---|---|
| Roedd costau llunio cynllun datblygu lleol cyntaf Cymru yn isel ac mae costau rheoli datblygiadau a pholisi cynllunio yn cymharu'n dda ar y cyfan ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, ond mae anghytundeb ynghylch cymharu gwybodaeth | 18 |
| **Monitro ac adolygu:** Mae rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio ond nid yw'r Awdurdod yn canolbwyntio ddigon ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ei wasanaeth cynllunio | 25 |
| Mae rheoli perfformiad yn gwella er nad yw'r Awdurdod yn gosod targedau gwella digon heriol | 25 |
| Mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio a'u gwella | 26 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol ddyletswydd i ddiogelu'r dirwedd y maent yn gyfrifol amdani tra'n sicrhau, ar yr un pryd, y gall pobl fwynhau'r dirwedd honno. Mae swyddogaeth gynllunio statudol Awdurdodau parciau cenedlaethol yn rhan bwysig o'r ddyletswydd honno[1]. Mae gwasanaethau cynllunio yn cynrychioli cyfran helaeth o'r amser y bydd awdurdod parc cenedlaethol yn ei dreulio a'r adnoddau y bydd yn eu defnyddio wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid i'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn sylweddol yn ddiweddar. Daeth hyn yn weithredol yn ystod 2014-15, gyda thoriadau pellach yn ofynnol yn 2015-16 a thu hwnt o bosibl. Mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru bellach yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddelio â llai o gyllid. O gofio'r gwariant cymharol uchel ar ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru o gymharu â chynghorau, mae'r gostyngiadau yn y cyllid cyffredinol yn peri risgiau penodol. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio ac yn nodi sut y mae'r awdurdodau parciau cenedlaethol yn rheoli'r risg hon. Ym mis Mai 2009 paratowyd adroddiad arolygu gennym[2] ar berfformiad Gwasanaeth Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod). Canfu'r adroddiad, er bod y gwasanaeth cynllunio yn cynnal lefel dda o berfformiad, fod angen mynd i'r afael ag arweinyddiaeth wan, rheoli perfformiad a phocedi o berfformiad gwael er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

**3.** Rydym wedi gwneud gwaith yn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau yr oeddent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian. Roedd ein gwaith maes yn yr Awdurdod yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau a data, yn ogystal â chyfres o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion dethol, aelodau, cynghorwyr cymuned ac asiantau cynllunio. Mae ein dadansoddiad a'n gwaith maes a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi ein galluogi i wneud cymariaethau o ran perfformiad a chostau.

**4.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Awdurdod yn darparu Gwasanaethau Cynllunio effeithlon gyda'r nod o sicrhau lefel uchel o berfformiad, hyd yn oed yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol cynyddol?

**5.** Daethom i'r casgliad bod gwella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol yn cefnogi perfformiad cynllunio gwell, er nad yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.

---

[1] Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio a threftadaeth, datblygu cynlluniau defnydd tir a threftadaeth lleol ac ymchwilio i achosion o dorri rheolaethau cynllunio a'u gorfodi.

[2] Swyddfa Archwilio Cymru, **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Gwasanaethau Cynllunio**, Mai 2009

**6.** Daethom i'r casgliad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- mae gwelliannau mewn arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol yn atgyfnerthu gallu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cynllunio gwell, er bod diffyg ffocws clir o ran blaenoriaethau gwasanaethau;
- mae costau cyffredinol, perfformiad a boddhad cwsmeriaid yn dda ar y cyfan ond, er bod cydweithredu yn gwella, nid yw'n ddigon strategol, mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai a thai fforddiadwy yn isel ac mae'r elfen o gynhyrchu incwm braidd yn araf yn datblygu; ac
- mae rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio ond nid yw'r Awdurdod yn canolbwyntio ddigon ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ei wasanaeth cynllunio.

**7.** Er mwyn helpu'r Awdurdod i fynd i'r afael â'r meysydd gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn gwnawn y cynigion canlynol ar gyfer gwella. Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| C1 | Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:<br>• data cyson, a chymharol gadarn ar gostau a nifer a defnyddio hyn i weld a yw'n darparu gwerth am arian ai peidio; a<br>• chanlyniadau perthnasol er mwyn helpu i fesur y cyfraniad tuag at gyflawni nod datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â newid tymor hwy.<br>Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y profiad o fesur a chymharu costau drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr. |
| C2 | Cynyddu lefelau cydweithio strategol a gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i gyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn ffordd agosach. |
| C3 | Atgyfnerthu cynllunio gwelliant drwy gytuno ar flaenoriaethau gwasanaeth cynllunio clir, pennu targedau mwy heriol a chefnogi proses well o reoli dogfennau. |
| C4 | Adolygu safbwynt yr Awdurdod ar godi tâl am ddarparu rhai gwasanaethau cynllunio er mwyn sicrhau na chollir cyfleoedd i gynhyrchu incwm. |

# Adroddiad manwl

## Mae gwella arweinyddiaeth a chanolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cymunedol yn atgyfnerthu gallu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cynllunio gwell, er bod diffyg ffocws clir o ran blaenoriaethau gwasanaethau

### Mae gwell arweinyddiaeth o'r gwasanaeth cynllunio a threfniadau llywodraethu cryfach yn cefnogi proses graffu a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol

**8.** Mae aelodau ac uwch swyddogion yn dangos arweinyddiaeth a rheolaeth well o lawer dros wasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Yn wahanol i ganfyddiadau ein hadroddiad Gwasanaeth Cynllunio yn 2009, lle y nodwyd arweinyddiaeth wan a threfniadau rheoli perfformiad gwan a phocedi o berfformiad gwael, mae'r gwasanaeth cynllunio bellach yn cael ei lywio'n effeithiol ar lefel uwch reolwyr ac aelodau. Canfuom fod yr Awdurdod bellach yn dangos dulliau llywodraethu, craffu a pherfformiad gwell. Yn benodol, mae aelodau bellach yn cydnabod bod gwasanaeth cynllunio o ansawdd uchel yn hollbwysig i gyflawni gweledigaeth hirdymor yr Awdurdod a chael ymdeimlad clir o berchenogaeth o'i lwyddiant.

**9.** Mae arbenigedd a phrofiad y chwe aelod o Lywodraeth Cymru a benodwyd wedi ychwanegu capasiti at aelodaeth yr Awdurdod. Soniodd aelodau y gwnaethom siarad â hwy am werth dull cydweithredol y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr cynllunio o weithio sy'n gwneud defnydd o allu a sgiliau aelodau. Mynegodd aelodau hyder hefyd yn yr uwch reolwyr a'r swyddogion cynllunio sy'n dod ag arweinyddiaeth newydd a phrofiad allanol priodol yn eu barn hwy i waith y gwasanaeth. Mae'r hyder gwell hwn wedi cyfrannu at fwy o ddirprwyo i swyddogion, sy'n gwella effeithlonrwydd y gwaith o ddod i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Dywedodd aelodau wrthym fod canoli swyddogion yn y swyddfa yn Noc Penfro wedi cyfrannu at ddiwylliant o ganolbwyntio mwy ar wella.

**10.** Mae gwaith llywodraethu yn yr Awdurdod wedi gwella ers ein harolygiad cynharach yn 2009 o wasanaethau cynllunio. Mae prosesau craffu'r Awdurdod wedi elwa ar adolygiad ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru, mae’r ddau awdurdod wedi ymchwilio i arferion gorau, wedi profi prosesau ac wedi llunio modelau craffu mwy addas ar gyfer y naill ardal a'r llall. Er mwyn cryfhau capasiti a gwella ei ffocws, mae'r Awdurdod wedi adolygu ei Bwyllgor Adolygu Polisïau ac wedi'i rannu'n ddau bwyllgor o naw aelod yr un. Mae un pwyllgor yn canolbwyntio ar graffu tra bo'r llall yn canolbwyntio ar weithredu.

**11.** Mae'r Awdurdod yn defnyddio ei swyddogaeth graffu i fynd i'r afael â materion o bwysigrwydd lleol. Er enghraifft, oherwydd graddau'r anfodlonrwydd lleol â'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy, arweiniodd aelodau adolygiad craffu o'r agwedd hon. Dywedodd aelodau wrthym fod eu galwad am dystiolaeth leol wedi rhoi gwell

dealltwriaeth o lawer iddynt a pherchenogaeth well o'r broblem. Mae'r argymhellion craffu ar gyfer tai fforddiadwy eisoes wedi arwain at ganllawiau cynllunio atodol newydd. Bydd yr argymhellion hefyd yn arwain at adolygiad rhannol o gynllun datblygu'r Awdurdod mewn ymgais i adlewyrchu'n well amodau'r farchnad leol a gwella'r broses o ddarparu tai fforddiadwy i drigolion lleol. Ym marn aelodau roedd llwyddiant yr arolygiad craffu o dai fforddiadwy wedi'i briodoli yn rhannol i ddysgu o adolygiad craffu cynharach ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae hyn yn dangos system dda o drosglwyddo dysgu o fewn yr Awdurdod.

**12.** Mae aelodau pwyllgor rheoli datblygu yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â chod ymddygiad clir sy'n ategu egwyddorion uchel tryloywder a thegwch wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Enwyd cod ymddygiad yr Awdurdod ar wahân ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio fel arfer da gan y Grŵp Cynghori Annibynnol ym mis Mehefin 2012 yn ei adroddiad **Tuag at Ddeddf Cynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol.** Llywiodd y cod ymddygiad argymhelliad y Grŵp Cynghori Annibynnol ar gyfer cod ymddygiad cenedlaethol i aelodau'r pwyllgor cynllunio.

## Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio mwy ar wella ffyniant economaidd i'w gymunedau

**13.** Fel rhan o'i rôl i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, mae'r Awdurdod yn cynyddu ei ffocws ac yn gwella lles economaidd a chymdeithasol cymunedau yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ffocws newydd hwn wedi'i lywio'n rhannol gan ymgynghoriad cyhoeddus a awgrymodd y dylai'r Awdurdod flaenoriaethu ei fuddsoddiad a chanolbwyntio ar wella'r cyfraniad y gall yr Awdurdod ei wneud i gynyddu ffyniant economaidd.

**14.** Dau ddiben statudol y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yw diogelu a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd cyhoeddus i ddeall a mwynhau'r Parc. Mae gan yr Awdurdod hefyd ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn ei ardal. Mae gan yr Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, rôl allweddol i brofi dulliau gweithredu newydd o ymdrin â phrif nod Llywodraeth Cymru o sicrhau datblygu cynaliadwy.[3]

**15.** Mae'r Awdurdod ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn adolygu llwyddiant eu polisïau a'u camau gweithredu ar y cyd wrth gefnogi'r broses o greu swyddi mewn microfusnesau. Nod yr adolygiad ar y cyd yw casglu tystiolaeth i weld a all polisïau presennol gynnal cymunedau cynaliadwy a microfusnesau yn y Parc Cenedlaethol. Roedd aelodau yn rhan annatod hefyd o'r gwaith o sicrhau amcan Cynllunio Gwelliant cryfach mewn perthynas â ffyniant economaidd. Arweiniodd hyn at Gynllun Gwella 2013-14 lle y nodwyd ar gyfer amcan 3 fod yr Awdurdod yn anelu at sicrhau:

[3] Datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau i ddod i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

- Bod gwaith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar yr economi leol a lles trigolion a'r rhai sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

**16.** Mae swyddogion ac aelodau yn gweithio'n dda gydag asiantiaid a datblygwyr gyda'r nod o sicrhau y gall datblygiad economaidd newydd a phriodol ddigwydd yn y Parc Cenedlaethol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Porthdy Brenhinol yn Ninbych-y-pysgod sy'n gynllun twristiaeth a wrthodwyd yn wreiddiol gan yr Awdurdod ond y gwnaed gwaith arno wedyn gyda'r ymgeiswyr i sicrhau gwelliannau er mwyn gwneud y cynllun yn addas i'w gymeradwyo. Yn yr un modd, cyfrannodd aelodau at y gwaith o gael caniatâd cynllunio i ailddatblygu rhan o Harbwr Saundersfoot, ac ym Mharc Slebech, cytunodd cynllunwyr ac ecolegwyr ar raglen waith raddol i gefnogi cynllun twristiaeth.

## Mae cynlluniau tîm yn cysylltu amcanion corfforaethol ond yn aml nid yw cwsmeriaid, staff ac aelodau yn glir ynghylch blaenoriaethau'r gwasanaeth cynllunio

**17.** Mae cynlluniau timau Rheoli Datblygu a Chyfeiriad y Parc yn llywio camau gweithredu'r aelodau o staff. Mae'r ddau gynllun tîm hyn yn cysylltu'n dda â Chynlluniau Corfforaethol a Gwella'r Awdurdod. Er enghraifft, gwnaeth cysylltiadau'r cynllun tîm Rheoli Datblygu wella ymatebion cyn gwneud cais i'r amcan corfforaethol o ddarparu gwerth am arian a gwnaeth y cynllun tîm hefyd ganolbwyntio ar geisio gwella canfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth cynllunio. Fodd bynnag, mae aelodau, staff a defnyddwyr yn rhannu blaenoriaethau gwahanol ar draws y gwasanaeth. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwain at ddiffyg eglurder a ffocws. Er enghraifft, mae aelodau o'r farn mai cyflymder, boddhad cwsmeriaid a chyngor cyn gwneud cais yw prif amcanion neu nodweddion gwasanaeth cynllunio o ansawdd. Mae rheolwyr o'r farn mai cyflymder, ysgrifennu adroddiadau a phenderfyniadau o safon yw'r blaenoriaethau, tra bod ffocws staff rheng flaen ar ganiatáu datblygiad, ansawdd gwaith dylunio, boddhad cwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae defnyddwyr am gael cysondeb a sicrwydd wrth wneud penderfyniadau ac yn pryderu llai fel arfer ynglŷn â gwneud penderfyniad o fewn wyth wythnos.

**18.** Heb flaenoriaethau lleol cytûn clir, bydd staff a rheolwyr yn aml yn troi at dargedau gorfodol Llywodraeth Cymru o ran cyflymder y broses o wneud penderfyniadau. Er bod cyflymder yn ddangosydd ansawdd cyffredinol, mae angen i hyn gael ei gydbwyso â'r blaenoriaethau hynny y mae aelodau wedi cytuno arnynt yn lleol, fel lles a ffyniant economaidd. Mae blaenoriaethau clir hefyd yn helpu i sicrhau system gadarn ac effeithiol o reoli perfformiad. Heb flaenoriaethau clir, ni all y gwasanaeth gysoni ei gapasiti na'i adnoddau yn llawn y tu ôl i'w gynlluniau tîm a'i amcanion gwella.

# Mae costau cyffredinol, perfformiad a boddhad cwsmeriaid yn dda ar y cyfan ond, er bod cydweithredu yn gwella, nid yw'n ddigon strategol, mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai a thai fforddiadwy yn isel ac mae'r elfen o gynhyrchu incwm braidd yn araf yn datblygu

## Mae asiantau cynllunio yn mynegi lefelau uchel o foddhad ond, er iddynt gynnwys rhanddeiliaid, mae barn dinasyddion am wasanaethau cynllunio yn waeth nag ydyw ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill yr Awdurdod

**19.** Yn 2014-15, dywedodd 75 y cant o ymgeiswyr cynllunio a ymatebodd i arolwg yr Awdurdod eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y ffordd yr ymdriniodd yr Awdurdod â'u cais cynllunio. Mewn cymhariaeth, roedd boddhad cwsmeriaid yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn 87 y cant ac yn 42 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r asiantwyr cynllunio a gyfwelwyd gennym ganmol yn fawr waith gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Nododd asiantwyr fod yn well o lawer ganddynt gyflwyno ceisiadau cynllunio i'r Awdurdod, yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol cyfagos. Yn eu barn hwy, roedd aelodau a swyddogion yr Awdurdod yn arddangos ymdeimlad clir iawn o berchenogaeth, brwdfrydedd a gofal mewn perthynas â'r system gynllunio. Roedd yr asiantwyr o'r farn ei bod yn gymharol hawdd siarad â swyddogion ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais am ddim a oedd yn gweithio'n dda yn eu barn hwy. Roedd yr asiantwyr yn benodol yn gwerthfawrogi parodrwydd y cynllunwyr i gefnogi gwaith dylunio priodol, arloesol a sensitif a'u dymuniad i beidio â chadw'r Parc Cenedlaethol yn dirwedd 'bocs siocledi' yn unig. Fodd bynnag, roedd yr asiantwyr cynllunio o'r farn bod polisi tai yr Awdurdod yn anhyblyg ac aneffeithiol o gofio'r gofyniad uchel am dai cost isel wrth wneud ceisiadau am ddatblygiad preswyl.

**20.** Ym mis Mawrth 2013, dyfarnodd arolwg panel o ddinasyddion o bob rhan o'r Awdurdod fod y gwaith cynllunio yn waeth nag ydoedd mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae hyn, ynghyd ag erthyglau a chwynion i'r wasg, ar adegau, wedi arwain at ganfyddiad negyddol o wasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Ers yr arolwg hwn mae'r Awdurdod wedi canolbwyntio mwy ar esbonio rôl a swyddogaeth y gwasanaeth cynllunio o ran bodloni ei nod corfforaethol a rheoli tir ehangach.
Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn ymddengys fod cyfleoedd i'r Awdurdod roi cyhoeddusrwydd i'r gwelliant ym mherfformiad ei wasanaethau cynllunio a thynnu sylw ato.

**21.** Mae'r Awdurdod yn uno'n effeithiol â Chyngor Sir Penfro i gynnal cyfarfodydd asiantwyr cynllunio bob chwarter sy'n ymdrin â phynciau fel polisi a chanllawiau newydd, perfformiad cyffredinol a phenderfyniadau cynllunio pwysig. Ym marn y rhan fwyaf o asiantwyr roedd yr Awdurdod yn cynnig digon o gyfleoedd i ymgysylltu â

swyddogion cynllunio, er bod o leiaf un asiant o'r farn nad yw'r Awdurdod yn manteisio i'r eithaf ar botensial cydweithio â'r sector preifat.

**22.** Mae uwch reolwyr cynllunio yn cyfarfod â chynghorau tref a chymuned i hyrwyddo system effeithiol o ymgysylltu a chefnogi polisïau ac amcanion yr Awdurdod. Gwnaethom gyfarfod â chlerc un cyngor tref a oedd yn gefnogol iawn i weithrediad gwasanaeth cynllunio'r Parc. Mae'r Cyngor Tref hefyd yn ei gwneud yn hawdd i drigolion ac ymwelwyr weld copïau o geisiadau cynllunio yn ei swyddfeydd ac mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd ymwneud mwy â'r broses gynllunio.

## Ar y cyfan mae perfformiad yn dda a gwneir penderfyniadau mewn modd effeithlon ond mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai ymhell islaw'r gofyniad pum mlynedd ac mae'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy yn wael

**23.** Mae perfformiad yr Awdurdod o'i fesur yn erbyn Fframwaith Perfformiad 2014-15 Llywodraeth Cymru[4] yn dda ar y cyfan, er bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen am welliant wrth ddyrannu cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai.

**24.** Er mai'r Awdurdod oedd y cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol, nid yw'n meddu ar gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. Yn 2014-15, roedd ei gyflenwad o 2.7 mlynedd yn is na'r lefel sy'n ofynnol gan Ganllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod yn fwy tebygol o golli apeliadau yn erbyn achosion o wrthod ceisiadau am dai.

**25.** Yn 2014-15, penderfynodd yr Awdurdod ar 86 y cant o'i holl geisiadau o fewn yr amserlenni gofynnol, sef gwelliant o gymharu â 77 y cant yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Perfformiad yr Awdurdod ar y mesur hwn oedd y gorau ond dau o blith awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Penderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 88 y cant o'i holl geisiadau o fewn yr amserlenni gofynnol tra penderfynodd Eryri ar 75 y cant. Yn 2014-15, cyflymodd yr Awdurdod ei broses o benderfynu ar geisiadau 'mawr'[5], gan benderfynu ar 22 y cant (dau allan o naw) o fewn yr amserlen ofynnol. Cynyddodd cyfraddau dirprwyo i gyfateb i berfformiad uchel Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn 2014-15 cynyddodd yr Awdurdod ganran y ceisiadau y mae'n eu dirprwyo i swyddogion o 84 y cant yn y flwyddyn ariannol flaenorol i 93 y cant, yn unol â'r hyn a gyflawnwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn 2014-15 cymeradwyodd yr Awdurdod 95 y cant o'r holl geisiadau cynllunio a dderbyniodd gyda 90 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

---

[4] **Llywodraeth Cymru: Tabl y Fframwaith Perfformio**. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru Tabl y Fframwaith Perfformiad bob chwarter.

[5] Mae ceisiadau 'mawr' yn cynnwys ceisiadau am ddatblygiadau preswyl o 10 annedd neu fwy neu ddatblygiad o fwy na 0.5 hectar neu swyddfeydd, diwydiant cyffredinol neu ddatblygiad manwerthu dros 1,000 $m^2$ neu un hectar.

**26.** Mae ansawdd y broses gwneud penderfyniadau wedi gwella. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru mewn perthynas â nifer a chanran y penderfyniadau a wnaed yn groes i gyngor swyddogion. Yn 2014-15 dim ond un penderfyniad o'r fath a wnaed allan o 17 o geisiadau. Ar 22 y cant mae hyn yn cyferbynnu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sef 48 y cant (10 allan o 21) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (3 allan o 17). Amddiffynnodd yr Awdurdod yn llwyddiannus 77 y cant o apeliadau cynllunio a wnaed yn erbyn ei benderfyniadau, cynnydd o gymharu ag ychydig yn llai na 50 y cant y flwyddyn ariannol flaenorol. Ni ddyfarnodd yr Arolygiaeth Gynllunio gostau ar gyfer apeliadau cynllunio adran 78 yn erbyn yr Awdurdod. Ni chofnododd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw achosion o gamweinyddu yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod.
A barnu yn ôl y mesurau uchod, mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn gadarn.

**27.** Yn 2014-15 ymchwiliodd yr Awdurdod i 66 y cant o achosion gorfodi o fewn 12 wythnos. Yn 2014-15, cymerodd gamau gorfodi neu cafodd gais cynllunio ôl-weithredol mewn 74 y cant o achosion o fewn 180 o ddiwrnodau. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd 48 y cant. Mae'r amser ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i gymryd camau gorfodi yn cymharu'n dda â'r mwyafrif o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru sef 88 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion gorfodi sydd heb eu datrys - mwy na 12 wythnos - wedi cynyddu o 58 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13 i 83 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gostwng y ffigur o 124 i 55 dros yr un cyfnod. Nid oes data gorfodi tebyg ar gael i farnu perfformiad tebyg ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar y rhan fwyaf o fesurau gorfodi.

**28.** Yn 2014-15, cynyddodd yr Awdurdod yn sylweddol nifer yr unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer dros y flwyddyn ariannol flaenorol. Cododd hyn o naw uned tŷ (17 y cant o'r holl unedau tai a gymeradwywyd) i 30 o unedau tai (cymeradwywyd 60 y cant o'r holl unedau tai). Fodd bynnag, mae nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd wedi gostwng o dri yn 2013-14 i ddim yn 2014-15. Er na ellir cymharu ffigurau tai fforddiadwy yn uniongyrchol oherwydd polisïau a chanllawiau gwahanol ar dai a gwerthoedd tir gwahanol iawn weithiau, y ffigurau tebyg dros yr un cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer tai fforddiadwy a adeiladwyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd 58 a 37 ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae prinder tai fforddiadwy yn gwanhau cyfraniad y gwasanaeth cynllunio at gyflawni amcanion yr Awdurdod o gynnal ac adeiladu cymunedau lleol cryf. Mae'r Awdurdod eisoes wedi mynd i'r afael â'i bolisi tai fforddiadwy drwy adolygu ei ganllawiau a pharatoi ar gyfer adolygiad cynllun lleol rhannol a fydd yn canolbwyntio ar ddiwygio ei bolisïau tai fforddiadwy yn y tymor hir.

## Mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion darbodus, gan gynnwys lleihau nifer y staff gwasanaeth cynllunio, ond bu'n araf i ddatblygu proses o gynhyrchu incwm a gwella'r dull o reoli dogfennau

**29.** Mae aelodau'n teimlo eu bod yn ymwneud digon â'r gwaith o lunio'r gyllideb ac yn ystyried eu bod yn gweithio'n dda â swyddogion i sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hadlewyrchu mewn trafodaethau ar y gyllideb. Yn arbennig, roeddent yn gwerthfawrogi'r gweithdai anffurfiol ar y gyllideb a gefnogwyd, lle roedd angen, gan swyddogion. Mae'r aelodau o'r farn eu bod yn cael gwybod digon am y pwysau cyllidebol a'r cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Lleihaodd cyllid yr Awdurdod ar gyfer 2014-15 a 2015-16 fwy na £772,000, neu bron 13 y cant. Gohiriodd yr Awdurdod y toriadau mwy o faint yn y gyllideb tan 2015-16. Diben y gohirio hwn oedd rhoi mwy o amser i gynllunio a pharatoi er mwyn lleihau'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaeth hyn osgoi'r angen i leihau'r cyllid ar brosiectau yn rhy gyflym gan arbed yr angen am ddiswyddiadau gorfodol.

**30.** Roedd strategaeth gyllidebol 2014-15 yr Awdurdod yn gynhwysfawr yn ei archwiliad o opsiynau ond nid oedd ganddi ymdeimlad clir o flaenoriaeth ar gyfer rhaglenni gwaith yn y tymor hwy. Roedd y strategaeth yn cynnig naw opsiwn gan gynnwys tynhau cyllidebau, gwella arbedion maint, atgyfnerthu gwaith cydweithredol a datblygu incwm lleol ond ni phennodd unrhyw dargedau heriol ar gyfer y gwasanaeth cynllunio er mwyn llywio a phennu mwy o arbedion maint.

**31.** Mae'r Awdurdod yn blaenoriaethu ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau cynllunio ond nid yw wedi'i glustnodi ac mae'n rhaid i'r gwasanaeth cynllunio gyfrannu at gynllun arbedion cyffredinol yr Awdurdod. Mae'r gwasanaeth cynllunio yn canolbwyntio ar gyllidebau er mwyn chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y toriadau sy'n ofynnol mewn cyllidebau. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- rhewi swyddi a/neu gyflogi staff ar gontractau gwahanol a graddfeydd cyflogau gwahanol os yw'r swydd yn caniatáu ar gyfer hynny;
- lleihau'r amser a'r gwariant ar y cynlluniau sy'n cyd-fynd â hysbysiadau penderfyniadau; ac
- chwtogi ar deithio nad yw'n hanfodol a'r defnydd o geir cronfa.

**32.** Mae meysydd eraill lle mae'r gwasanaeth cynllunio yn ceisio dod yn fwy effeithlon yn cynnwys lleihau nifer y cyfarfodydd rheoli datblygu bob blwyddyn, prynu cyngor cyfreithiol preifat drwy gontract fframwaith sector cyhoeddus a gweithio mwy hyblyg rhwng swyddogion cynllunio. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i gynyddu incwm drwy godi tâl am gyngor cyn gwneud cais. Er enghraifft, yn 2014-15 cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog £27,580 mewn incwm cyn gwneud cais ac mae wedi elwa ar incwm cyn gwneud cais ers blynyddoedd lawer.

**33.** Nid yw'r Awdurdod wedi cyflwyno system rheoli dogfennau modern a all gefnogi dull gweithio'r gwasanaeth cynllunio sy'n fwy effeithlon. Ni ellir gweld cynlluniau na gwybodaeth ategol mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio ar-lein. O ganlyniad, dim ond cyfleuster ar-lein rhannol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer cwsmeriaid a

defnyddwyr cynllunio. Mae'r hepgoriad hwn yn creu rhwystredigaeth ac aneffeithlonrwydd i'r cyhoedd, ymgyngoreion statudol a chwsmeriaid.

**34.** Mae arbedion ariannol darbodus dros y blynyddoedd diwethaf gan y tîm polisi cynllunio wedi galluogi'r Awdurdod i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer ei gynllun datblygu lleol a'i waith polisi cynllunio. Erbyn 2013-14 roedd yr Awdurdod wedi arbed £100,000 drwy waith rheoli cyllideb da ac yn sgîl hyn llwyddwyd i ddefnyddio £30,000 ar gyfer gwaith cynllun datblygu lleol ar adeg pan oedd cyfyngiadau ar y gyllideb. Mae gwaith cynllunio ariannol tymor hwy o'r fath yn meithrin y gallu i wrthsefyll cyfyngiadau ar y gyllideb.

**35.** Yn 2011 daeth yr Awdurdod â'i dîm polisi cynllunio ynghyd gydag arbenigeddau cynllunio eraill a rheolwyr cefn gwlad i ffurfio ei dîm Cyfeiriad y Parc. Mae hyn wedi cynyddu gwaith cydgysylltu ac wedi gwella capasiti a chydnerthedd polisi a gweithrediad yn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cefnogi'r amcan o gysylltu amcanion ei Gynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol a'r cynllun datblygu lleol i gyflawni datblygiad cynaliadwy.

**36.** Rhwng blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2014-15 lleihaodd y gwasanaeth cynllunio nifer ei staff cyfwerth ag amser llawn o 19.6 i 15.7 (gweler Arddangosyn 1) - lleihad o bron un o bob pum aelod o staff. Mae gan wasanaeth cynllunio'r Awdurdod y nifer leiaf o weithwyr cyfwerth ag amser llawn o blith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Yn ogystal â chael cytundeb lefel gwasanaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru i gynyddu ei gapasiti, mae gan y gwasanaeth cynllunio gytundeb lefel gwasanaeth â chwmni o ymgynghorwyr cynllunio preifat y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer gwaith rheoli dros dro a rhywfaint o waith llwyth achosion. Mae'n defnyddio'r cytundeb hwn i lenwi'r bylchau yng nghapasiti'r rheolwyr a'r swyddogion achos ond mae defnyddio'r trefniant hwn yn ychwanegu at gostau'r gwasanaeth cynllunio.

**37.** Caiff newidiadau mewn lefelau staffio eu llywio gan oportiwnistiaeth, gyda rheolwyr yn ystyried ffyrdd amgen o weithio os yw swyddogion yn gadael, yn ymddeol neu am weithio llai o ddiwrnodau. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr Awdurdod yn gostwng graddfeydd cyflogau os bydd o'r farn y gall rôl gael ei chyflawni ar lefel is a chyflogi swyddogion cynllunio dros dro. Fodd bynnag, ni chaiff lefelau staffio'r Awdurdod eu llywio gan waith dadansoddi sy'n cymharu'r awdurdod hwnnw ag awdurdodau tebyg na chan strategaeth y gweithlu. Gallai diffyg dull strategol fethu â diogelu blaenoriaethau allweddol a thanseilio gallu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol yn y tymor hwy.

Arddangosyn 1: Tuedd yn nifer y staff gwasanaeth cynllunio (Cyfwerth ag amser llawn)

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **APC Eryri** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 14 | 15 | 13 |
| **Polisi Cynllunio** | 5.9 | 5.9 | 5.5 |
| **Cyfanswm** | 19.9 | 20.9 | 18.5 |
| **APC Arfordir Penfro** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 15.85 | 14.65 | 12.85 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.75 | 3.35 | 2.85 |
| **Cyfanswm** | 19.6 | 18 | 15.70 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 19.9 | 18.7 | 17.5 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.55 | 2.95 | 2.45 |
| **Cyfanswm** | 23.45 | 21.65 | 19.95 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

## Mae'r Awdurdod yn gweithio'n fwy cydweithredol i ddarparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau na'i dargedau yn ddigon strategol i gyflawni arbedion cost sylweddol yn wyneb caledi parhaus yn y sector cyhoeddus

**38.** Mae'r Awdurdod yn cydweithio â chynghorau cyfagos ac awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru gyda'r nod o wella ei gapasiti a'i gydnerthedd a lleihau ei gostau. Mae'r Awdurdod yn cael cyngor cynllunio ar fwynau a chyngor ar fentrau gwledig gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n rhannu ecolegydd a galluogwr tai fforddiadwy ar y cyd â Chyngor Sir Penfro ac mae'r ddau awdurdod yn gweithio'n agos ar briffyrdd a datblygu economaidd. Mae'r Awdurdod yn defnyddio gallu ac arbenigedd swyddogion yng Nghyngor Sir Penfro i fonitro cytundebau adran 106[6] a rhannu cyngor cyfreithiol.

**39.** Dywedodd aelodau'r Awdurdod ac uwch reolwyr wrthym eu bod am gydweithio'n fwy llwyddiannus â Chyngor Sir Penfro ond nid oeddent am lunio model gwasanaeth cynllunio unigol. Nid yw ymdrechion diweddar i ddatblygu prosiect peilot yn archwilio cydweithio agosach rhwng yr awdurdodau wedi datblygu. Roedd aelodau'r Awdurdod o'r farn, yng nghyd-destun materion cynllunio, fod angen cydweithio'n well mewn

[6] Cytundeb cyfreithiol i ddarparu seilwaith, gwasanaethau neu gyllid ar y safle datblygu neu oddi arno.

meysydd fel tai fforddiadwy, gorfodi, rhannu Technoleg Gwybodaeth (TG) a rheoli dogfennau.

**40.** Mae'r Awdurdod wedi dechrau gweithio'n agosach gydag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru ac wedi llunio rhestr o gamau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae ffocws clir y cydweithio ar rannu arfer da a meithrin mwy o allu i gydweithio. Ers mis Ebrill 2014 mae tri rheolwr cynllunio'r awdurdod parc cenedlaethol wedi llunio rhaglen ffurfiol ar fentrau cydweithio sy'n cynnwys rhaglen reolaidd o gyfarfodydd. Mae hyn yn creu'r potensial i sicrhau gwelliannau parhaus yn y tri awdurdod parc cenedlaethol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Tynnwyd sylw at y cyfarfodydd hyn ar y cyd fel 'cam cyflym ymlaen' yn adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012[7]. Fodd bynnag, collodd yr awdurdodau parciau cenedlaethol rywfaint o amser yn ceisio mynd ati i gynnal y cyfarfodydd hyn ar y cyd oherwydd diffyg capasiti. Mae enghreifftiau o allbynnau o'r cyfarfodydd yn cynnwys cytundeb lefel gwasanaeth ar y cyd rhwng y tri Awdurdod mewn perthynas â rhannu rheolwyr datblygu ar adegau pan fo'u hangen yn ddirfawr, e.e. salwch neu gynnydd mewn llwyth gwaith.

**41.** Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth hwn yn golygu y gellir trosglwyddo gwaith un awdurdod i un o'r lleill. Gallai hyn olygu y byddai mwy o gydnerthedd i ateb y galw o ran capasiti wrth weithredu'r gwasanaeth rheoli datblygu. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod wedi troi at ei gytundeb lefel gwasanaeth gyda chwmni cynllunio preifat i lenwi bylchau yn y capasiti rheoli ac nid yw wedi defnyddio'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill. Gwnaeth yr Awdurdod y penderfyniad hwn er mwyn ceisio cynnal perfformiad da. Mae'r tri awdurdod yn trafod dull tebyg ar gyfer cytundeb lefel gwasanaeth o ran cynllunio datblygiadau. Fodd bynnag, mae'n glir bod y dyhead tymor canolig i hirdymor o gydlynu a chyfuno'r adolygiadau o'r cynlluniau datblygu lleol yn annhebygol iawn o ddigwydd oherwydd anghenion ac amserlenni adolygu lleol gwahanol. Hyd yma, nid yw'r awdurdodau wedi defnyddio'r cytundebau lefel gwasanaeth.

**42.** Mae'r tri Awdurdod wedi cydweithio i lunio canllawiau ar Ddatblygu Cynaliadwy fel Canllawiau Cynllunio Atodol ac maent yn sicrhau mai dim ond un Awdurdod sy'n arwain y gwaith o ymateb i Lywodraeth Cymru a'r ymgynghoriadau statudol mawr eraill. Mae enghreifftiau o drosglwyddo dysgu rhwng yr Awdurdodau yn cynnwys lleihad yn nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a ddefnyddiwyd gyntaf yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a'r ffocws cynyddol ar annog pobl i gyflwyno ceisiadau electronig drwy'r Porth Cynllunio Cenedlaethol.

**43.** Er bod awydd clir i sicrhau bod awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cydweithio'n well, nid yw hyn wedi'i ategu gan dargedau clir ac arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig. Nid yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol wedi manteisio'n gyflym nac yn effeithiol ar y cyfleoedd i gydweithio'n well a nodwyd yn

[7] **Delivery of Planning Services in Statutory Designated Landscapes in Wales**, a baratowyd gan LUC ar ran Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (Awst 2012)

adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir i greu cynllun gweithredu â blaenoriaethau clir ac wedi ei dargedu a'i gostio. Hyd yma mae'r enghreifftiau o gydweithio yn rhai gwerth isel o gymharu â gwariant cyllidebol cyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu ymrwymiad tymor hwy cyffredin i gydweithio'n agosach, er enghraifft, drwy strategaethau cyfunol y gweithlu neu gynlluniau tymor canolig cyffredin.

**44.** Fodd bynnag, er mai casgliad adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir oedd bod yr adrannau cynllunio yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd i raddau helaeth, mae ein canfyddiadau mwyaf diweddar yn awgrymu bod diwylliant gwell o gydweithio ar waith. O gofio'r dirwedd ariannol sydd wedi newid yn sylweddol ers adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir ac adroddiad cynharach PricewaterhouseCoopers yn 2011,[8] mae'r angen am gydweithio strategol rhwng cyrff y sector cyhoeddus wedi dwysáu. Mae ein barn ar yr angen am gydweithio strategol gwell rhwng yr awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn gwella gwerth am arian yn cyfateb i argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus 2014. [9]Er enghraifft argymhellodd y Comisiwn '…that NPAs must develop clear and consistent ways of collaborating with each other, and with local authorities, with Visit Wales and with Natural Resources Wales, on the ground, to avoid duplication and maximise the use of resources and scarce expertise'.

**45.** O ystyried buddiannau posibl cydweithio, cydweithredu a chydgynhyrchu gwasanaethau cynllunio, mae'n bwysig bod yr Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall fod opsiynau i weithio'n agosach gydag awdurdodau cynllunio cynghorau cyfagos.

**46.** Gydag arweinyddiaeth gryfach ymhlith aelodau a swyddogion yn y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru, mae cyfleoedd i wynebu mesurau cyni cyllidol cyhoeddus ar sail ariannol fwy strategol a chytûn. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithredu strategol a arweiniodd at arbedion sylweddol mae rhai cyd-wasanaethau mewn llywodraeth leol, rhwng llywodraeth leol ac iechyd, a rhwng yr Awdurdodau Tân.[10]

**47.** Canfuom fod aelodau'r Awdurdod a rhai uwch reolwyr yn cydnabod yn glir fod awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn colli cyfleoedd i gynllunio ar gyfer cydweithio'n fwy strategol. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys swyddogaethau cefn swyddfa cyllid a chyfrifeg, adnoddau dynol, TG a chysylltiadau. Er nad yw'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod, maent yn cyfrannu at y taliadau a ailgodir[11] a ychwanegir at gyllideb gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

---

[8] PricewaterhouseCoopers, **Review of the Welsh National Park Authorities' Planning Services**, Ionawr 2011, ar ran y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru.

[9] Gweler para 2.60 o **Llywodraeth Cymru Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus 2014**

[10] LGA and Drummond Macfarlane 2012, **Services shared: costs spared? An analysis of the financial and non-financial benefits of local authority shared services**.

[11] Taliadau a ailgodir yw costau a godir gan feysydd eraill o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol neu sefydliadau allanol am waith neu wasanaethau a gyflawnir ar ran gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

## Roedd costau llunio cynllun datblygu lleol cyntaf Cymru yn isel ac mae costau rheoli datblygiadau a pholisi cynllunio yn cymharu'n dda ar y cyfan ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, ond mae anghytundeb ynghylch cymharu gwybodaeth


**48.** Datgelodd ein hastudiaeth ddiffyg cynnydd o hyd ymhlith awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru o ran cytuno ar sut y dylid asesu a chymharu costau gwasanaethau cynllunio. Yn 2009, yn dilyn arolygiad o wasanaeth cynllunio'r Awdurdod, gwnaethom argymell y dylai'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill i sicrhau y gellir cymharu data costau a defnyddio'r wybodaeth hon i ddangos ei fod yn cynnig gwerth am arian.

**49.** Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad gan PricewaterhousCoopers yn 2011 (a gomisiynwyd gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru) y dylent 'undertake further analysis on costs and resources to understand and agree a consistent basis for comparison'. Er gwaethaf yr argymhellion hyn, nid yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran cytuno ar ddata cymharol. Trafodir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ond mae'n egluro'r defnydd o setiau data gwahanol yn ein dyfarniadau isod.

**50.** Rhwng 2010-11 a 2012-13 (gweler Arddangosyn 2) mae costau rheoli datblygu'r Awdurdod, o'u mesur yn ôl enillion all-dro refeniw[12], yn dangos cynnydd graddol cyn lleihau rhwng 2012-13 a 2013-14. Yn 2013-14, roedd costau'r Awdurdod yn £564,000 o gymharu â £475,000 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Eryri a £947,000 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

[12] Mae alldro refeniw yn cynrychioli costau cynnal gwasanaethau fel staffio, adeiladau, ynghyd â'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth.

Arddangosyn 2: Costau  wedi'u Mesur gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru - Ffigurau Alldro Refeniw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**51.** Oherwydd pryderon ynghylch ansawdd data a chymharedd, nid oes gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yr hyder i ddefnyddio'r ffigurau alldro refeniw fel sail ar gyfer dadansoddi costau. Cydnabyddwn rai o'r pryderon hyn ac felly gofynnwyd i awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru baratoi costau cymharol amgen ar gyfer eu gwasanaethau rheoli datblygu, rhai gwasanaethau polisi cynllunio a chynlluniau lleol. Gwnaethant hyn ar gyfer 2012-13 i 2014-15 (gweler Arddangosion 3 i 5) a chasglwyd costau cymharol hefyd ar gyfer y tri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr ar gyfer 2013-14. Rhwng 2012-13 a 2014-15 lleihaodd costau rheoli datblygu yr Awdurdod. O'u mesur yn ôl costau gan gynnwys taliadau a ailgodir, syrthiodd costau'r Awdurdod ar gyfer y cyfnod hwn o £667,033 i £507,000. O'u mesur gyda chostau ac eithrio taliadau a ailgodir, syrthiodd y costau o £458,928 i £304,000.

**52.** Yn 2014-15 (gweler Arddangosyn 5), roedd cyfanswm y costau rheoli datblygu,  gyda a heb daliadau a ailgodir, yn sylweddol is nag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd â'r gwariant uchaf. O'u mesur yn ôl cost gyfartalog fesul cais,

darparodd yr Awdurdod y gwasanaeth cost isaf sef £813 fesul cais (gan gynnwys taliadau a ailgodir) a £488 (ac eithrio taliadau a ailgodir).

Arddangosyn 3: Costau Rheoli Datblygu 2012-13

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 508 | 400 | 556 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £380,483 | £667,033 | £817,619 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £749 | £1,668 | £1,471 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £194,503 | £458,928 | £402,831 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £383 | £1,057 | £723 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

Arddangosyn 4: Costau Rheoli Datblygu 2013-14

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog | APC Dartmoor | APC Dyffrynnoedd Swydd Efrog | APC y Peak District |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 577 | 469 | 505 | 671 | 574 | 641 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £465,935 | £575,261 | £868,429 | £548,667 | £519,000 | £432,000 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £808 | £1,227 | £1,719 | £818 | £904 | £674 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £275,725 | £337,352 | £485,533 | £368,406 | £365,000 | £183,000 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £478 | £719 | £961 | £549 | £636 | £285 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru ar y cyd â thri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr.*

Arddangosyn 5: Costau Rheoli Datblygu 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt** | 526 | 623 | 567 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £490,684 | £507,000 | £695,027 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £933 | £813 | £1,226 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £277,034 | £304,000 | £399,686 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £527 | £488 | £705 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**53.** Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Arddangosyn 6) ar gyfer y cynnydd mwyaf yn ei gostau rheoli datblygu ymhlith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd yn gwario 11.8 y cant yn fwy yn 2015-16 (gan gynnwys taliadau a ailgodir) nag a wnaeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 2.17 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chynnydd o 7.05 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae ei gostau a gyllidebwyd, gyda thaliadau a heb daliadau, yn uwch na'r rhai a ragwelwyd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ond yn is na'r rhai a bennwyd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.


Arddangosyn 6: Cyllideb ar gyfer Costau Rheoli Datblygu 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £501,590 | £574,888 | £747,735 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £283,450 | £353,322 | £449,640 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**54.** O'u mesur yn ôl enillion alldro refeniw, mae costau Blaengynllunio a Chymunedau'r Awdurdod yn gyson is na rhai awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, (gweler Arddangosyn 7). Yn 2013-14, o'u mesur yn ôl alldro refeniw, roedd costau Blaengynllunio a Chymunedau'r Awdurdod sef £601,000 yn is na chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sef £841,000.

Arddangosyn 7: Costau Blaengynllunio a Chymunedau a Fesurwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru - Ffigurau Alldro Refeniw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru*

55. Yn 2014-15 syrthiodd costau Polisi Cynllunio'r Awdurdod (gweler Arddangosyn 8) yn is na chostau'r awdurdod parc cenedlaethol â'r gwariant uchaf yn Eryri ond roeddent yn sylweddol uwch na chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Arddangosyn 8: Costau Polisi Cynllunio 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £380,242 | £330,000 | £134,066 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £263,042 | £251,000 | £116,321 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

56. Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Arddangosyn 9) ar gyfer lleihad wrth ddarparu ei wasanaeth Polisi Cynllunio. Mae costau wedi'u cyllidebu'r Awdurdod (gan gynnwys costau a ailgodir) o £256,793 yn cyfateb i gynnydd o 22 y cant o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Arddangosyn 9: Cyllideb ar gyfer Costau Polisi Cynllunio 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £410,790 | £256,793 | £204,830 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £294,030 | £186,873 | £186,920 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

57. Yn 2014-15, roedd costau cyfun yr Awdurdod ar gyfer rheoli datblygu a pholisi cynllunio yn unol ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru yn fras, gan gynnwys a heb gynnwys taliadau (gweler Arddangos 10).

Arddangosyn 10: Costau Rheoli Datblygu a Pholisi Cynlunio Cyfunol 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £870,926 | £837,000 | £829,093 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £540,076 | £555,000 | £516,007 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru*

**58.** Yn 2010, yr Awdurdod oedd yr awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i lunio cynllun datblygu lleol yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru. Mae rhai awdurdodau cynllunio yng Nghymru eto i gyflawni hyn. Roedd costau'r Awdurdod o lunio cynllun datblygu lleol cyntaf Cymru yn sylweddol is na rhai awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, (gweler Arddangosyn 11). Roedd ei gostau o £450,000 yn sylweddol is na rhai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac yn llai na hanner costau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mabwysiadodd yr Awdurdod ddull rheoli prosiectau da gan roi pwyslais mawr ar reoli costau.

Arddangosyn 11: Cost Paratoi a Mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol a'r dyddiad mabwysiadu

| | Cost | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|---|
| **APC Eryri** | £770,000 | 2011 |
| **APC Arfordir Penfro** | £450,000 | 2010 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | £979,351 | 2013 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru*

# Mae rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio ond nid yw'r Awdurdod yn canolbwyntio ddigon ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ei wasanaeth cynllunio

## Mae rheoli perfformiad yn gwella er nad yw'r Awdurdod yn gosod targedau gwella digon heriol

**59.** Mae rheoli perfformiad yn yr Awdurdod yn cefnogi perfformiad gwell. Roedd rhai aelodau a swyddogion y gwnaethom siarad â hwy o'r farn bod rheoli perfformiad, ers 2012, yn fwy cadarn ac effeithiol o lawer. Mae'r gwasanaeth cynllunio yn sicrhau parhad rhwng cysylltiadau cynlluniau corfforaethol yr Awdurdod, cynlluniau busnes a gwella a chysylltiadau cynllun tîm. Mae swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth o ansawdd uchel ar ffurf graffiau i aelodau yn y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac mae'r wybodaeth yn dangos tueddiadau allweddol. Gwnaeth y wybodaeth hon y gellir ei deall yn hawdd helpu'r aelodau i herio perfformiad gwael blaenorol mewn meysydd megis cyflymder y broses o wneud penderfyniadau. Mae aelodau wedi defnyddio trefniadau adrodd ar berfformiad yn y Pwyllgor Adolygu Gweithrediadau i ganolbwyntio ar wella cyflymder y broses o wneud penderfyniadau, cadernid y gwasanaeth gorfodi a dull yr Awdurdod o ymdrin â thai fforddiadwy. Er enghraifft, gwellodd perfformiad ar gymeradwyo ceisiadau cynllunio o fewn wyth wythnos o 76 y cant yn 2013-14 i 86 y cant yn 2014-15. Erbyn diwedd 2014-15 roedd y gwasanaeth wedi lleihau'r ôl-groniad gorfodi dros y pedair blynedd diwethaf o 500 o achosion i tua 83.

**60.** Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn pennu targedau gwella heriol yn gyson. Er enghraifft, yn 2014-15 pennodd yr Awdurdod darged o benderfynu ar 75 y cant o geisiadau cynllunio o fewn wyth wythnos, pan oedd eisoes wedi cyflawni 76 y cant yn 2013-14. Ar gyfer 2014-15 nid oedd yr Awdurdod wedi pennu targed i gynyddu canran y ceisiadau y mae'n eu cymeradwyo a chysylltu hyn â phwysigrwydd perfformiad gwell yn y prosesau cyn gwneud cais a dilysu ceisiadau. Mae hwn yn gyfle a gollir i ddangos awydd yr Awdurdod i weld datblygiad mwy priodol yn y Parc Cenedlaethol, wedi'i anelu at hyrwyddo ei amcanion economaidd a lles. Nid yw pob un o gynlluniau gwasanaeth a gwella'r Awdurdod yn nodi camau gweithredu pendant a chlir. Er enghraifft, nid oedd targedau na cherrig milltir manwl yng nghynlluniau'r timau rheoli datblygu a chyfeiriad y parc nac yn amcanion gwella 2014-15.

**61.** Cyflwynodd amcanion gwella 2014-15 yr Awdurdod yr amcan canlynol i adlewyrchu'r gostyngiad mewn arian grant cyhoeddus:

- ‘The National Park Authority, in consultation with residents, visitors and other partners, adapts to the reduced funding over the period 2014/2016 while still maintaining good governance, quality services, and value for money.’

**62.** Mae'r amcan newydd hwn yn adlewyrchu'r angen i'r Awdurdod weithredu gyda sail costau gostyngol. Er gwaethaf y lleihad mewn cyllid, mae'r Awdurdod yn ceisio darparu dull llywodraethu da, gwasanaethau o safon a gwerth am arian. Nod yr Awdurdod yw mesur cyfraniad y gwasanaeth cynllunio at ddarparu ansawdd a gwerth am arian drwy ystyried pa mor gyflym y penderfynir ar geisiadau, ymateb i geisiadau ymlaen llaw a datblygu mynediad ar-lein i wybodaeth am geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, nid yw mesurau o'r fath yn mynd i'r afael â materion darbodusrwydd ac nid oes gan y gwasanaeth unrhyw fesur manwl o elfennau ei sail costau er mwyn cymharu ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill neu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru.

## Mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio a'u gwella

**63.** Fodd bynnag, er y dirwedd ariannol a newidiodd yn sylweddol a ffocws cynyddol yr Awdurdod ar ganfod arbedion, datgelodd ein cyfweliadau ag aelodau a staff nad yw'r Awdurdod wedi gwella llawer o ran ei ddealltwriaeth fanwl o werth am arian. Araf fu'r Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill, i ddatblygu dangosyddion a mesurau llwyddiant. Nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ganfyddiadau dau adroddiad o bwys a argymhellodd y dylai weithio gyda'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall i gytuno ar fframwaith cyson ar gyfer mesur a chymharu gwerth am arian.

**64.** Dywedodd ein hadroddiad arolygu yn 2009 ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod y dylai'r Awdurdod 'gymeradwyo canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy o ran Rheoli Datblygiadau sy'n ymwneud â ...gwerth am arian Unwaith y cytunir ar y canlyniadau hyn, dylid diweddaru cynlluniau gweithredu er mwyn nodi'n glir pa gamau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.' Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad PricewaterhousCoopers yn 2011 y dylai'r tri awdurdod gytuno ar 'a consistent basis for defining the measures (to enable comparison) and in particular those around finance'.

**65.** Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryder hwn yn rhannol ac yn ystyried y bydd angen gwneud rhagor o waith, mwy manwl efallai ar rai costau gweithgarwch. Fodd bynnag, bu'r gwaith hyd yma ar symleiddio prosesau yn angenrheidiol yn ei farn ef, ac y bydd yn lleihau costau ac yn gwella effeithlonrwydd.

**66.** Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw'r Awdurdod na'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru wedi datblygu mesurau cost safonol. Dadleua'r awdurdodau nad yw cymariaethau yn briodol oherwydd y gwahaniaethau yn y setiau data, yn enwedig y ffigurau blynyddol ar gyfer alldro refeniw.

**67.** Yn ôl pob tebyg, nid oes rhesymeg glir i nodi pam nad yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol wedi ceisio cytuno ar safonau neu fesurau priodol i feincnodi mewn ffordd ansoddol a meintiol. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod profiad yn Lloegr a'r Alban yn dangos bod methodoleg sefydledig glir ar waith i fesur a chymharu prosesau ac amser/costau cysylltiedig. Yna mae'r Awdurdodau a'u grwpiau teuluol

wedi cael cyfleoedd i archwilio perfformiad cymharol a dysgu a gwella os oes angen. Nodir rhai mesurau, safonau a chwestiynau defnyddiol i'w hystyried gan wasanaethau cynllunio'r Awdurdod yn Arddangosyn 11.[13]

Arddangosyn 11: Cyfleoedd i feincnodi er mwyn rhoi sicrwydd neu sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parciau cenedlaethol.

**Ceisiadau a llwyth gwaith:**
- A yw awdurdodau parciau cenedlaethol a chyd-awdurdodau yn wahanol iawn i'w gilydd a pham?
- A yw'r cymysgedd o geisiadau/ffioedd yn peri unrhyw risg?

Canlyniadau:
- A yw cyfraddau cymeradwyo awdurdodau parciau yn wahanol iawn i'w gilydd ac i rai awdurdodau eraill?
- Beth allai fod yn digwydd yn rhywle arall y gall awdurdodau parciau cenedlaethol ddysgu ohono?

**Gwerth a dim gwerth - ceisiadau a dynnwyd yn ôl:**
- Beth yw'r duedd gyffredinol?
- Beth mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn ei wneud i osgoi hyn ac a yw'n gweithio?
- Beth sy'n digwydd i'r duedd mewn ceisiadau am ddim gan nad yw ffioedd yn talu costau?

**Gwerth a dim gwerth - ceisiadau dilynol:**
- Beth yw'r tueddiadau mewn perthynas â chyflawni amodau a mân addasiadau perthnasol?
- Sut y gellir lleihau costau i'r eithaf?
- Pwy sy'n gwneud hyn yn dda?

**Amcangyfrif o nifer yr aelodau o staff:**
- I ba raddau y mae'r adnoddau yn cyfateb i'r gwaith?
- Beth yw'r llwythi achosion yn rhifyddol ac ar draws pa fath o geisiadau?
- A oes cyfleoedd i ail-ganolbwyntio ar adnoddau?

**Gwerth buddsoddi:**
- A yw awdurdodau parciau cenedlaethol yn gwybod beth yw gwerth buddsoddi'r cynigion datblygu?
- Beth mae tueddiadau sy'n codi/gostwng yn ei olygu i strategaethau'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol?

**68.** Heb gytuno ar fesurau a safonau priodol ac asesu'r modd y maent yn cymharu â'i gilydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod asesu a yw'n cyflawni gwerth am arian i drethdalwyr lleol a chwsmeriaid cynllunio sy'n talu am wasanaeth. Heb ddealltwriaeth well o feysydd lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod flaenoriaethu gwelliannau. Mae agenda 'Cynllunio Cadarnhaol' newydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i annog a chefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol

[13] Daw'r enghreifftiau o gyfleoedd i gymharu o **Fframwaith Ansawdd Cynllunio'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio**

Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i roi ffocws cliriach ar gost, gwerth am arian a gwell meincnodi. Dylai unrhyw waith ar feincnodi yng Nghymru adeiladu ar y profiad a'r arbenigedd a gafwyd drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban[14] a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr i gefnogi awdurdodau cynllunio i wella perfformiad a gwerth am arian.

**69.** Mewn perthynas â mesurau anariannol, nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ein hargymhelliad yn 2009 i ddatblygu canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy sy'n ymwneud â themâu sy'n cynnwys ansawdd. Mae cyfleoedd i'r Awdurdod ddangos ei gyfraniad at ffyniant economaidd yn well gan fod aelodau a staff yn amlwg wedi ychwanegu gwerth ac wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n creu cyflogaeth.

**70.** Mae cyfleoedd hefyd i'r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru gydweithio i ddatblygu mesurau canlyniadau mwy ansoddol. Mae enghreifftiau yn cynnwys adolygu a gweithredu ar y 49 o fesurau o lwyddiant o adroddiad 2011 PricewaterhouseCoopers.

[14] Penaethiaid Cynllunio'r Alban: **Planning Performance Framework 2014-15 reports**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru